# Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg A Chwaraeon

### 1. Rhagair

1.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgorau pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad ar hynt y gwaith o gyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006.

### 2. Yr Aelodau

2.1 O 1 Ebrill – 31 Rhagfyr bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

Rosemary Butler (Cadeirydd), Alun Pugh (Gweinidog), Leighton Andrews, Lorraine Barrett, Eleanor Burnham, Lisa Francis, Denise Idris-Jones, Elin Jones, Laura Anne Jones, Owen John Thomas.

2.2 O 1 Ionawr – 31 Mawrth 2006, yn dilyn lleihau'r nifer ar y Pwyllgorau, bu'r canlynol yn aelodau:

Rosemary Butler (Cadeirydd), Alun Pugh (Gweinidog), Eleanor Burnham, Lisa Francis, Denise Idris-Jones, Laura Anne Jones, Val Lloyd, Owen John Thomas.

## 3. Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn deillio o bortffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mae'r portffolio'n cynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, henebion, llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion y loteri. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys gorolwg ar naw corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu gyrff cyhoeddus sy'n cael cymorth grant.

3.2 Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn cael eu gosod allan yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar agweddau pwysig ar waith y Pwyllgor o dan bob un o'r penawdau hyn.

## 4. Gwaith a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma

4.1 Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 15 gwaith. Cynhaliwyd dau o'r rhain yn allanol sef: Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful a'r Stadiwm Liberty, Abertawe. Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod cyntaf yn y Senedd ar 8 Mawrth 2006.

## *Datblygiad Polisi (RH.S 9.7 (i))*

**Cyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol**

Trafodwyd adroddiad y Pwyllgor ar ei adolygiad o gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol yn y cyfarfod llawn ar 26 Ebrill 2005. Cafwyd ymateb y Gweinidog yn y cyfarfod llawn ar 14 Mehefin.

**Adolygu'r Ddawns yng Nghymru**

Parhaodd y Pwyllgor i wrando ar dystiolaeth lafar hyd Orffennaf 2005 ar ei adolygiad o'r Ddawns yng Nghymru. Lansiwyd ei adroddiad "Dawns yng Nghymru: Adolygiad" yn Nhŷ'r Ddawns, Canolfan Mileniwm Cymru ym mis Rhagfyr ac fe'i trafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 24 Ionawr 2006. Cyhoeddodd y Gweinidog ei ymateb i'r adolygiad a datganiad y cyfarfod llawn arno ym Mawrth 2006.

**Ymweliad â Senedd yr Alban**

Ymwelodd y Pwyllgor â Senedd yr Alban ym mis Mehefin 2005. Roedd hyn yn rhan o'i weithgarwch yn casglu tystiolaeth ar gyfer adolygu'r ddawns ac yn cyfnewid syniadau'n gyffredinol ar faterion polisi diwylliannol.

**Y Diwydiant Papurau Newydd Saesneg yng Nghymru**

Yn dilyn trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr 2005 ar y Trinity Mirror Group yng Nghymru a chais gan Aelodau unigol, cychwynnodd y Pwyllgor ar adolygiad byr o'r Diwydiant Papurau Newydd Saesneg yng Nghymru. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth ffurfiol gan nifer o grwpiau papur newydd ac Ysgol Newyddiaduriaeth Caerdydd ar y materion sy'n wynebu papurau newydd Saesneg yng Nghymru.

**Pêl-droed yng Nghymru**

Cychwynnodd y Pwyllgor ar adolygiad o bêl-droed yng Nghymru ym mis Chwefror 2006 â golwg gyffredinol dros faterion gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Yn dilyn hyn, cafwyd tystiolaeth gan nifer o fuddgyfranogwyr pêl-droed, ac mae hyn yn parhau.

## *Adolygu Gwariant a Gweinyddu (RhS 9.7 (ii))*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog (yn fisol o Ionawr 2006), yn caniatáu craffu ar benderfyniadau a pholisïau y mae'n atebol drostynt. O fis Medi ymlaen, ar gais y Pwyllgor, cynhwysodd y Gweinidog adroddiadau bob tymor ar wariant o'r gyllideb er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro hynt rhagolygon cyllido a'r canlyniadau.

## *Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) (RhS 9.7 (iii))*

Parhaodd y Pwyllgor â'i arfer o graffu ar waith pob un o'r pum prif CCNC diwylliannol sydd yn ei bortffolio:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Craffwyd ar waith pob un o'r pum sefydliad gan y Pwyllgor yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2005.

Trafododd y Pwyllgor hefyd gynigion y Gweinidog o ran dyfodol y CCNC sydd yn ymwneud â diwylliant a pholisïau perthnasol mewn nifer o gyfarfodydd yn hydref 2005 ac yn gynnar yn 2006.

## *Deddfwriaeth (RhS 9.8(i))*

Mesur y Loteri Cenedlaethol oedd yr unig ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol a anfonwyd i'r Pwyllgor gan y Cyfarfod Llawn. Trafododd y Pwyllgor y cynigion ar gyfer y Mesur yn fyr ar 26 Ionawr 2005. Wedyn, trafododd y Pwyllgor Fesur y Loteri Cenedlaethol ei hun ar 29 Medi a 19 Hydref 2005. Ni wnaeth y Pwyllgor unrhyw argymhellion ar gyfer newid a gosodwyd ei adroddiad ar 2 Rhagfyr 2005.

### *Rhaglen Waith Flynyddol yr UE 2006*

Trafododd y Pwyllgor Raglenni Gwaith Blynyddol y Comisiwn Ewropeaidd yn Ebrill 2005 a Chwefror 2006 gan glustnodi materion ar gronfeydd diwylliannol Ewrop ar gyfer eu hadolygu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## *Y Gyllideb (RhS 9.8 (ii))*

Nododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau cyllidol yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2005 (gweler llythyr 3 Mehefin y Cadeirydd yn Atodiad 1) a rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2005.

## *Penodiadau Cyhoeddus (RhS 9.8(iv))*

Enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor oedd Rosemary Butler ac Owen John Thomas.

## 5. MATERION TRAWSBYNCIOL

Yn ystod y flwyddyn, trafododd y Pwyllgor y dull mwyaf cynhyrchiol o sicrhau bod agweddau cyfle cyfartal ar ei waith yn cael eu gwyntyllu'n llawn. Rhoddwyd sylw hefyd i gynaladwyedd yn enwedig wrth graffu ar waith y CCNC sy'n ymwneud â diwylliant.

## 6. BLAENRAGLEN

6.1 Cytunwyd rhaglen waith strategol ym mis Mehefin 2005 ac fe'i hatodir yn **Atodiad 2.**

**GPYA**
**Ebrill 2006**